OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2022 No. 564

Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2022

RHAN 4

Darpariaeth Drosiannol

Darpariaeth drosiannol

21.—(1) Nid yw'r diwygiadau a wnaed gan Rannau 2 a 3 o'r Rheoliadau hyn **[**[F1](heblaw am reoliadau 14 a 17)**]** yn gymwys mewn achos—

(a) pan fo gwaith adeiladu ar adeilad penodol wedi ei gychwyn cyn y diwrnod y daw'r Rheoliadau hyn i rym yn unol ag unrhyw ddarpariaeth hysbysu berthnasol, neu

(b) pan gydymffurfiwyd â darpariaeth hysbysu berthnasol mewn perthynas â gwaith adeiladu arfaethedig ar adeilad unigol **[**[F2]cyn y diwrnod y daw'r Rheoliadau hyn i rym**]** a bod y gwaith adeiladu wedi cychwyn o fewn 12 mis gan ddechrau â'r diwrnod y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

[[F3](2) Yn y rheoliad hwn, ystyr "darpariaeth hysbysu berthnasol" yw rheoliad 12(2) o'r Rheoliadau Adeiladu ac adrannau 47(1), 50, 51A(2) a 54 o Ddeddf Adeiladu 1984.**]**

F1 Geiriau yn rhl. 21(1) wedi eu mewnosod (22.11.2022) gan Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2022 (O.S. 2022/993), rhlau. 1(3)(a), **3(2)(a)**

F2 Geiriau yn rhl. 21(1)(b) wedi eu mewnosod (22.11.2022) gan Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2022 (O.S. 2022/993), rhlau. 1(3)(a), **3(2)(b)**

F3 Rhl. 21(1)(c) ac gair wedi ei fewnosod (22.11.2022) gan Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2022 (O.S. 2022/993), rhlau. 1(3)(a), **3(2)(c)**

Gwybodaeth Cychwyn

I1 Rhl. 21 mewn grym ar 23.11.2022, gweler **rhl. 1(3)**

Newidiadau i ddeddfwriaeth:
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2022, RHAN 4.